



Cynllun busnes  
2020

# Tair prif flaenoriaeth

Mae'r cynllun busnes hwn yn nodi tair prif flaenoriaeth ar gyfer ein gwaith yn 2020.

## 1 Rheoleiddio effeithlon ac effeithiol

Ein blaenoriaeth gyntaf yw cyflawni ein swyddogaethau rheoliadol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol – mewn geiriau eraill, ein prif ddiben. Dyma sut yr ydym yn cadw cleifion yn ddiogel ac yn cynnal hyder rhanddeiliaid ynom.

## 2 Cyflawni ein strategaeth gorfforaethol

2020 yw blwyddyn olaf ein *Strategaeth gorfforaethol 2018-2020*<sup>1</sup> gyfredol hefyd, sy'n nodi ein huchelgais i symud pwyslais ein gwaith o weithredu pan fydd pethau wedi mynd o le, i gynorthwyo pob meddyg i ddarparu gofal o'r safon uchaf. Yn 2020, byddwn yn parhau i gyflawni newidiadau sy'n cynorthwyo'r uchelgais hon, gan gynnwys yr ymrwymïadau yn ein strategaeth nas cyflawnwyd eto.

## 3 Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio

Mae'r trydydd maes y rhoddir blaenoriaeth iddo yn ymwneud â'n ffyrdd o weithio a'r math o sefydliad yr ydym yn dymuno bod. Mae hyn yn cynnwys ein buddsoddiadau parhaus mewn pobl, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli newid a'r pwysau o ran llwyth gwaith.

<sup>1</sup> [www.gmc-uk.org/about/how-we-work/corporate-strategy-plans-and-impact/corporate-strategy](http://www.gmc-uk.org/about/how-we-work/corporate-strategy-plans-and-impact/corporate-strategy)

# Rheoleiddio effeithlon ac effeithiol

Mae'n swyddogaethau rheoliadol wrth wraidd yr hyn a wnawn:

- rheoli cofrestr feddygol y DU
- pennu'r safonau ar gyfer meddygon
- goruchwyllo addysg a hyfforddiant meddygol
- helpu i gynnal a gwella safonau trwy gyfrwng aiddilysu
- ymchwilio i bryderon am feddygon a gweithredu yn eu cylch.

## Ein gwaith mewn rhifau

Yn 2020, rydym yn rhagweld:

y byddwn yn cysylltu â **55,000** o hyfforddeion a **45,000** o hyfforddwyr er mwyn deall eu safbwyntiau ynghylch ansawdd addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig, trwy gyfrwng ein harolygon hyfforddiant cenedlaethol

ymateb i **600** o ymholiadau moesegol mewn perthynas â'n safonau ar gyfer meddygon

cynnal hyd at **400** o ddigwyddiadau ar draws y DU, gan ymgysylltu gyda dros **10,600** o feddygon a myfyrwyr meddygol, trwy gyfrwng ein tîm Allgymorth

cymryd camau pellach er mwyn ymateb i bryderon ar ffurf hyd at **290** o dribiwnlysoedd ymarferwyr meddygol



ymweld ag **11** o ysgolion meddygol newydd ac adolygu'r broses o gyflwyno dull sicrhau ansawdd newydd ar draws pedwar rhanbarth yn y DU (Llundain, Dyffryn Tafwys, Dwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr)

prosesu

**21,500**

o geisiadau gan feddygon sy'n dymuno ymuno â chofrestr feddygol y DU

prosesu

**62,600**

o argymhellion aiddilysu ar gyfer meddygon

adolygu

**8,500**

o bryderon a godwyd gyda ni

# Cyflawni ein strategaeth gorfforaethol

Mae'n *Strategaeth gorfforaethol 2018–2020* yn nodi ein gweledigaeth i symud pwyslais ein gwaith o weithredu pan fydd pethau wedi mynd o le, i gynorthwyo pob meddyg i ddarparu gofal o'r safon uchaf. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar bedwar nod strategol:

- cynorthwyo meddygon i wneud gwaith meddygol da
- cryfhau gweithgarwch cydweithio gyda'n partneriaid rheoliadol ar draws y gwasanaethau iechyd
- cryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn
- bodloni anghenion y gwasanaethau iechyd sy'n newid ar draws pedair gwlad y DU.

## Ein ffocws yn 2020

Yn ystod 2019, cyhoeddodd ystod o waith ymchwil er mwyn deall sut y gallwn gynorthwyo meddygon yn well i ddarparu gofal o'r ansawdd uchaf i gleifion. Mae'r ddealltwriaeth o'r gwaith ymchwil hwn yn cael effaith arwyddocaol ar ein blaenoriaethau ar gyfer 2020.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys: sut i hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn meddygol; *What it means to be a doctor*; a'r *Independent review of gross negligence manslaughter and culpable homicide*. Ceir gwaith ymchwil hefyd a oedd yn canolbwyntio ar sialensiau penodol yn yr amgylcheddau y mae meddygon yn gweithio ynddynt, gan gynnwys *Fair to refer?* a *Caring for doctors Caring for patients*.

Rydym wedi ymrwymo i roi sylw i'r materion – am yr amgylcheddau y mae meddygon yn gweithio ynddynt ac effaith pwysau o fewn systemau ar waith meddygol a'r gofal ar gyfer cleifion – a godwyd yn yr adroddiadau hyn.

Gan adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r adroddiadau hyn, byddwn yn canolbwyntio ein gwaith yn 2020 ar dri maes allweddol o fewn ein nodau strategol ehangach:

- **amgylcheddau** – dylanwadu ar arfer da a gofal da trwy gyfrwng amgylcheddau da
- **gweithlu meddygol ac arweinyddiaeth** – galluogi gweithlu medrus ac addas i'r diben, ac sydd ar gael
- **datblygiad rheoliadol** – gwella'r hyn a wnawn yn barhaus, a diogelu'r hyn a wnawn at y dyfodol.

## Prif weithgareddau yn 2020

Isod, nodir rhai o'n prif weithgareddau ar gyfer 2020.

### Gweithio gydag eraill i roi sylw i bwysau ar y proffesiwn er mwyn galluogi gofal gwell ar gyfer cleifion

Amlygodd y gwaith ymchwil a gyhoeddodd yn 2019 bod y proffesiwn yn wynebu sialensiau sylweddol. Mae ymsefydlu gwell, tegwch, arweinyddiaeth a chymorth parhaus yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro yn yr adolygiadau hyn, ac y byddwn yn gweithredu yn eu cylch.

Mae'n gwaith yn *Croeso i arfer yn y DU*, *Ymddygiad proffesiynol a diogelwch cleifion*, a chyrhaeddiad gwahaniaethol eisoes yn targedu rhai o'r materion hyn.

Byddwn yn archwilio ein rôl wrth gynorthwyo meddygon gyda'u datblygiad proffesiynol a'u dysgu gydol oes, er mwyn gwella'u profiad o waith, lles, ymrwymiad i'w swydd, ac yn y pen draw, ansawdd y gofal ar gyfer cleifion.

## Parhau ein gwaith i ddatblygu a gweithredu'r Asesiad Trwyddedu Meddygol

Yn 2020, byddwn yn parhau ein gwaith gydag ysgolion meddygol a myfyrwyr i ddatblygu agweddau gweithredol ar MLA, gan weithio tuag at drefniant i'w gyflwyno'n raddol o 2023.

Bydd yr MLA yn pennu trothwy cyffredin ar gyfer arfer diogel, gan gynnig mwy o hyder i gleifion a chyflogwyr mewn meddygon sydd newydd ddechrau gweithio yn y DU, ble bynnag y cawsant eu haddysgu neu eu hyfforddi.

## Cydweithio gydag eraill i wella canlyniadau

Mae hyn yn cynnwys ein rhaglen *Lleol yn Gyntaf*, sy'n ceisio sicrhau bod y sefydliad cywir yn rhoi sylw i bryderon am feddygon, ar yr adeg gywir.

Mae'n cynnwys ein gwaith i gynyddu hyblygrwydd mewn hyfforddiant ôl-raddedig hefyd, ar gyfer y rhai sy'n dymuno trosglwyddo o un maes arbenigol i un arall, a chan sicrhau bod rhagofalon digonol mewn grym ar gyfer meddygon sy'n dychwelyd i'w rhaglen hyfforddiant.

## Datblygu model er mwyn rheoleiddio proffesiynau cysylltiedig meddygol

Mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod ein dull rheoliadol yn hyblyg ac yn diogelu at y dyfodol, er mwyn caniatáu i gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia i wneud cyfraniad mor fawr ag y gallant i ofal cleifion a'r gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag eraill a chynllunio sut y gallwn gyflawni ein swyddogaethau rheoliadol mewn ffordd effeithlon a chymesur.

## Ymgorffori dysgu o ymchwiliadau cyhoeddus mawr

Byddwn yn canolbwyntio ar ddeall a dysgu gan ymchwiliadau cyhoeddus, sy'n amlygu cyfleoedd i ni wella diogelwch a gofal cleifion mewn ffordd fwy effeithiol yn genedlaethol.

## Parhau i ymateb i newidiadau ym mherthynas y DU gydag UE a dadlau dros gael fframwaith deddfwriaethol priodol

Byddwn yn parhau i gofrestru meddygon AEE a rhyngwladol gan adlewyrchu perthynas y DU gydag UE, gan fonitro ein trefniadau wrth gefn presennol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn bodloni anghenion y gweithlu.

Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth ac eraill yn ehangach, gan ddylanwadu ar a chynorthwyo cyfleoedd am newid deddfwriaethol – rhywbeth hanfodol er mwyn i ni gyflawni ein huchelgais o fod yn rheolydd mwy hyblyg, cymesur ac ystwyth.

## Dwyn ein tîm Allgymorth ynghyd i fodloni anghenion y gwasanaethau iechyd sy'n newid

Bydd strwythur ein tîm Allgymorth yn cyd-fynd â phedair gwlad y DU a'r saith rhanbarth GIG yn Lloegr. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall amodau lleol yn well, gan dargedu ein hymdrechion a'n dulliau gweithredu er mwyn adlewyrchu anghenion lleol.

# Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio

Mae'n gallu i gyflawni ein blaenoriaethau mewn ffordd effeithiol yn dibynnu ar ein pobl, ein systemau a'n ffyrdd o weithio.

Rydym yn dymuno bod yn sefydliad y mae pobl yn dymuno gweithio iddo, lle y cânt eu gwerthfawrogi a'u trin gyda pharch a thegwch. Mae'r pwyslais hwn yn adlewyrchu'r gwersi yr ydym wedi'u dysgu o'n gwaith ymchwil – ni all meddygon ffynnu mewn amgylcheddau nad ydynt yn adlewyrchu'r gwerthoedd hyn, ac rydym yn dymuno bod yn esiampl o bwysigrwydd gwneud hyn yn iawn.

## Rhoi sylw i ganlyniadau'r arolwg staff

Roedd ein harolwg staff mwyaf diweddar wedi nodi nifer fawr o gryfderau. Yn arbennig, roedd wedi amlygu'r ffaith bod ein pobl yn teimlo'u bod yn rhan o sefydliad sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo gofal diogel ac o ansawdd uchel ac i gyflawni safonau uchel

Ond rydym yn cydnabod hefyd bod rhai meysydd y gallwn eu gwella. Trwy gydol 2020, bydd aelodau'r Tîm Rheoli Uwch yn arwain gweithgorau er mwyn archwilio tri prif faes i'w gwella:

- pwysau ar lwythi gwaith a lles
- cynllunio a rheoli newid
- Cynwysoldeb, gweithredu mewn ffordd agored a thryloywder.

## Buddsoddi mewn pobl

Mae iechyd a lles ein pobl yn hynod o bwysig i ni. Yn 2020, byddwn yn gweithio tuag at sicrhau gwobr Iechyd a Lles Buddsoddwyr mewn Pobl. Bydd hyn yn ychwanegu at y statws achrediad arian a gyflawnom yn 2018. Mae'n rhan o'n hymrwymiad parhaus i'n pobl a'n taith er mwyn sicrhau achrediad aur.

Yn ogystal, rydym yn buddsoddi mewn rhagor o rolau newydd yn ein prosesau ymchwilio, ein swyddogaethau addysg, ein tîm asesiadau cofrestru, a'n prif swyddogaethau galluogi, gan gynnwys adnoddau dynol a throi at wybodaeth. Yn ogystal â helpu i reoli pwysau gan lwyth gwaith, bydd cynyddu maint ein timau yn ein galluogi i ymateb i gynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau cofrestru.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Bydd ein Fforwm Cydraddoldeb Strategol, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd yn ystyried sut y gallwn gynnwys ystod eang o safbwyntiau yn ein gwaith. Bydd hyn, ynghyd â'n hymdrechion i ddatblygu ein cynwysoldeb fel cyflogwr, yn ein helpu i fod yn fwy adlewyrchiadol o'r cyhoedd yr ydym yn ceisio'u diogelu a'r proffesiynau yr ydym yn eu rheoleiddio.

## Dull newydd er mwyn cynllunio ein gwaith a neilltuo adnoddau ar ei gyfer

O 2021, byddwn yn gweithredu cynllun busnes a chyllideb dreigl tair blynedd. Bydd hyn yn cynnig safbwynt i ni dros y tymor hwy o'r hyn yr ydym yn ei wneud a pham, fel y gallwn fod yn fwy ymatebol a hyblyg yn ein dull gweithredu tuag at gynllunio gwaith. Bydd yn ein galluogi i ailflaenoriaethu ein gwaith hefyd, fel y gallwn sicrhau bod yr hyn a wnawn mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd, gan reoli pwysau llwyth gwaith ar ein hunain ac ar ein rhanddeiliaid yn well.

## Y tu hwnt i 2020

Yn ystod 2020, byddwn yn parhau i ganlyn ein nodau strategol law yn llaw â'n swyddogaethau rheoliadol craidd a'n gwaith gydag eraill er mwyn sicrhau newid cadarnhaol o fewn systemau gofal iechyd y DU.

Mae deall yr amgylchedd allanol ac addasu iddo, gan ragweld sialensiau a chyfleoedd ar gyfer y proffesiynau yr ydym yn eu rheoleiddio, yn hollbwysig i'n gwaith. Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn parhau i ddefnyddio data a dirnadaeth er mwyn cyfrannu at y math o sefydliad yr ydym yn dymuno bod. A byddwn yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r uchelgais honno yn ein strategaeth gorfforaethol nesaf, a fydd delio â'r cyfnod o 2021 i 2025.

E-bost: [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org)

Gwefan: [gmc-uk.org](http://gmc-uk.org)

Ffôn: 0161 923 6602

Cyhoeddwyd Ionawr 2020

© 2020 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750) GMC/BP/0120